| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Medi 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Rhian Evans, Prif Gyfrifydd (Dirprwy Swyddog Adran 151) |
| **Teitl** | Adroddiad Cyllid (Medi 2024/25) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y'u cytunwyd ar gyfer 2024/25 yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a Chynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae adrodd yn rheolaidd i'r Cabinet ar y sefyllfa ariannol yn arfer da er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n cael trosolwg o'r materion hyn a chyfle i graffu arnynt. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ac yn cadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2024/25.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2024/25 a chynnydd yn seiliedig ar y strategaeth y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £271.021m (£250.793m yn 23/24) - fel y gwelir yn Atodiad 1. Rhagwelir y bydd gorwariant o £240,000 ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol (nid oedd tanwariant na gorwariant yn cael ei ragweld fis diwethaf). Mae hi'n

dal yn gynnar yn y flwyddyn ariannol ac ni fydd sefyllfa gyllidebol rhai meysydd gwasanaeth yn glir tan nes ymlaen yn yr hydref. Mae meysydd risg uchel yn cynnwys newidiadau i leoliadau preswyl o fewn Gwasanaethau Plant, Digartrefedd, ffioedd gofal yng Ngofal Cymdeithasol Oedolion a chludiant ysgolion.  Mae pwysau yn dod i'r amlwg yn rhai o'r meysydd yma, ac ar y rhagolygon presennol, byddant yn cael eu lliniaru gan danwariant eto o flwyddyn ariannol ddiwethaf yn y cyllidebau arian at raid a gynhelir yn ganolog.   Ceir esboniad ar y risgiau a'r rhagdybiaethau cyfredol sy'n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6 ac Atodiad 2.

4.2 Wrth osod y gyllideb ar gyfer 2024/25 roedd y Cyngor yn wynebu pwysau costau o £24.6 miliwn o ganlyniad i gynnydd chwyddiannol megis cyflogau a chynnydd yn y galw am, a chostau darparu Gofal Cymdeithasol. Roedd y cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru ac yn lefel Treth y Cyngor yn golygu bod rhaid i wasanaethau ddod o hyd i arbedion ariannol ac effeithlonrwydd gwerth £10.384 miliwn yng nghyllideb 2024/2025, fel y dangosir isod:

- **Cynigion ar gyfer gwneud Arbedion Sylweddol** - Prosiectau gwneud arbedion ar raddfa fawr (£2.388m)
- **Arbedion heb fod yn strategol** –Arbedion effeithlonrwydd gweithredol/arbedion ar raddfa lai o fewn maes cyfrifoldeb dirprwyedig Pennaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol. Mae'r rhain yn cynnwys y cynigion a ddynodwyd eisoes yn adroddiad gosod y gyllideb yn ogystal â'r targed £3 miliwn ychwanegol a roddwyd i Benaethiaid Gwasanaeth ar adeg gosod y gyllideb er mwyn galluogi gosod cyllideb fantoledig (£5.296m).
- Derbyniodd yr  **Ysgolion** gyllid ar gyfer yr holl bwysau chwyddiannol yn cynnwys dyfarniadau cyflog, cyfraniadau pensiwn ac ynni, a chynnydd ar gyfer demograffeg. O ystyried maint yr heriau, gofynnwyd i'r ysgolion ddod o hyd i arbedion o 3% (£2.7m).  Y sefyllfa net oedd cynnydd o £4.916m (5.82%).

4.3 Oherwydd amseriad eu rhoi ar waith, ni fydd rhai cynigion yn gwireddu arbediad blwyddyn lawn yn 2024/25 a bydd hynny'n creu pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn i'r gwasanaethau hynny. Bydd y pwysau hyn yn cael eu monitro gyda'r gyllideb gwasanaeth.  Ceir arbediad blwyddyn lawn o 2025/26 ymlaen. Mae'r offeryn olrhain arbedion yn cael ei ddiweddaru bob chwarter a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Hydref.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaethau, ond bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried rhagolygon ariannol y dyfodol ac edrych yn realistig ar yr hyn y gellir ei wireddu gyda'r cyllid sydd ar gael.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ceir gwybodaeth fanwl am bwysau a risgiau gor a than wario i wahanol wasanaethau yn Atodiad 2, ond dylid nodi'r materion canlynol hefyd:

6.1 **Y Gwasanaeth Addysg a Phlant** – Er bod pwysau ychwanegol o £2.0 miliwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2024/25, mae hwn yn dal i fod yn faes sy'n peri pryder. Y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw gorwariant o £1.961m oherwydd pwysau ym maes Gofal Cymdeithasol Plant (£1.546m) ac yn y Gwasanaethau Addysg (£415,000).

6.2 **Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd –** Y sefyllfa derfynol bresennol a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth cyfan yw £1.124m yn sgil pwysau ar gyllideb cynnal a chadw'r gaeaf a pheidio â chyflawni arbedion blwyddyn lawn o'r cynigion a gynhwyswyd yn 2024/25. Mae'r problemau wrth gyflwyno'r model gwastraff newydd wedi arwain at orfod defnyddio adnoddau ychwanegol dros dro, yn fwy na'r gyllideb, yn ystod cyfnod estynedig gweithredu'r model newydd a fydd yn cael ei gynnal rhwng mis Mehefin a mis Medi. Mae llwybrau ailgylchu diwygiedig yn cael eu cwblhau ac maent wedi'u cynllunio o fis Hydref ymlaen. Mae llwybrau'n cael eu hychwanegu at y rhai a gynlluniwyd yn wreiddiol gan arwain at gostau uwch wrth ddarparu'r gwasanaeth na ragwelwyd yn wreiddiol. Rhagwelir mai'r costau cyfun ychwanegol yma yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwastraff yw £1.200m, serch hynny, mae'r gorwariant gros yma'n cael ei rwydo gan dderbynneb untro y mae'r Cyngor newydd ei gael o'i gyfran o ail ariannu Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, gan ddod a'r gwasanaeth gwastraff yn gytbwys ar gyfer y flwyddyn. Mae cyfarfod Cabinet ychwanegol wedi cael ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth 1 Hydref, er mwyn i'r Cabinet gymeradwyo'r llwybrau diwygiedig, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ariannol.

6.3 **Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd** - Cafodd pwysau ychwanegol o £7.969m ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2024/25, mae'r maes hwn yn faes sy'n peri pryder. Y sefyllfa derfynol bresennol a ragwelir yw £390,000 oherwydd newidiadau yn rhai o'r pecynnau yng ngwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau cymhleth.

6.4 **Cyllidebau Corfforaethol** – Mae'n anodd rhagweld gyda sicrwydd beth fydd sefyllfa'r cyllidebau arian at raid a gedwir yn ganolog gan nad ydym yn gwybod eu natur yn iawn nes y ceir costau gwirioneddol a bod y sefyllfa derfynol yn cael ei chadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn. Ar y pwynt hwn yn ystod y flwyddyn fe amcangyfrifir y gellir rhyddhau £3.26m wrth i rywfaint o'r tanwariant yn 2023/24 ddigwydd eto yn 2024/25; ar arian at raid ar gyfer costau pensiwn (£500,000) ac ynni (£1m) a gall yr arian at raid a gedwir ar gyfer yr adolygiad cyflog a graddio (£1.76m) gael ei ryddhau oherwydd oedi yn y broses yn genedlaethol.

6.5 **Ysgolion** – Roedd y gyllideb a gymeradwyodd y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o £4.09 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau Llywodraeth Cymru). Mae cyllidebau ysgolion a gariwyd ymlaen i 2024/25 o £3.681m yn isel o'i gymharu â blynyddoedd diwethaf. Mae trafodaethau cynnar gydag ysgolion yn rhagweld gostyngiad i falansau ysgolion o £6.722m gan arwain at falans debyd net o £3.041m yn cael ei gario ymlaen i 2025/26. Mae trafodaethau yn parhau gydag ysgolion gefnogi'r gwaith sydd ei angen i leihau'r graddau y defnyddir balansau.

6.6 **Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** - Cyllidebwyd y bydd balansau'r CRT a gariwyd ymlaen i 2024/25, sef £1.180m, yn cynyddu i £1.288m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae cyllideb gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai o £20m yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau wedi'u cynllunio i'r stoc dai bresennol (£12m) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£8m).

6.7 **Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Awst, roedd cyfanswm benthyca'r Cyngor yn £298.361m ar gyfradd llog gyfartalog o 4.44%. Roedd y balansau buddsoddi'n £8.75m ar gyfradd llog gyfartalog o 4.91%.

6.8 Y Cynllun Cyfalaf a gymeradwywyd yw £94.1m, a'r gwariant hyd yma yw £17.9m.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cyflwynwyd Asesiad o Effaith ar Les (AEL) yn cwmpasu'r mesurau lleihau'r gyllideb gyfunol ac effaith y cynnydd yn Nhreth y Cyngor i'r Cyngor ar 30 Ionawr.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, yng nghyfarfodydd Briffio'r Cabinet, gan Arweinwyr Grŵp ac yng nghyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor, ynghyd â phob Cyngor arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae pwysau costau mewn meysydd risg uchel, yn seiliedig ar y rhagolygon o alw a chostau ar y pryd, wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2024/25 er mwyn ei gwneud yn fwy gwydn. Mae pwysau cychwynnol eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd. Mae lefel y pwysau ar y gwasanaethau yn peri pryder a bydd angen cadw llygad gofalus ar hyn. Ymddengys bod yr arian a gedwir wrth gefn yn gorfforaethol yn ddigon i dalu am wasgfeydd ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon, ond disgwylir rhagor o risgiau a phwysau yn y misoedd nesaf a byddant yn cael eu hystyried maes o law o ran pa gamau ychwanegol allai fod eu hangen i leihau'r pwysau.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Wynebodd y Cyngor her ariannol sylweddol wrth osod ei gyllideb ar gyfer 2024/25, a bydd hyn yn parhau yn y tymor canolig o ganlyniad i gyfuniad o ddiffyg cynnydd digonol mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gadw i fyny â phwysau chwyddiannol parhaus, cynnydd yn y galw am wasanaethau a chymhlethdod yr angen amdanynt. Mae

strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor yn ffurfio'r sail ar gyfer yr ymdriniaeth o ran rheoli'r risgiau hyn.

10.2 Er gwaethaf monitro costau'n ofalus ac olrhain cynigion gwneud arbedion, yn y pen draw os bydd gorwariant sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn yn 2024/25, tebyg i'r hyn a brofwyd yn 2023/24, ac os nad oes modd gwireddu'r cynigion arbed, bydd hyn yn arwain at ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn 2024/25. Bydd hyn yn lleihau Iefelau cynaliadwyedd a gwydnwch ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'r sefyllfa ariannol yn hynod heriol ac mae rheolaeth ariannol effeithiol a disgybledig yn ystod y flwyddyn ar ran yr holl ddeiliaid cyllideb yn hanfodol bwysig.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol ar Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol eu materion ariannol.